**Julie James AC/AM**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref - MA - P/JJ/2755/19

Mike Hedges AM
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

7 Awst 2019

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Gorffennaf ynghylch yr amserlen ar gyfer cyhoeddi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Bydd ymgynghoriad ar ddrafft y fframwaith yn cael ei gynnal rhwng dydd Mercher 7 Awst a dydd Gwener 1 Tachwedd.

Mae diweddariad i'r Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd wedi ei gyhoeddi ac ar gael yma. Rwyf hefyd yn amgáu copi er gwybodaeth.

Yn gywir



**Julie James AC/AM**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

## Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd

Cyhoeddwyd gyntaf: Tachwedd 2016
Diwygiad cyntaf: Mehefin 2017
Ail ddiwygiad: Gorffennaf 2019

# Byrfoddau

| | |
|---|---|
| **ARhC** | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| ACI | Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig |
| **FfDC** | Fframwaith Datblygu Cenedlaethol |
| **AG/AAS** | Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol |

OGL © Hawlfraint y Goron

# Cynnwys

1. Cyflwyniad

2. Y Broses Baratoi

3. Cyfranogi

4. Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd

# 1. Cyflwyniad

1.1 Bydd Llywodraeth Cymru yn paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) i Gymru.

1.2 Bydd y FfDC yn gynllun datblygu ar gyfer Cymru gyfan. Bydd yn nodi ein polisïau cynllunio cenedlaethol ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf a bydd yn mynegi'n ofodol amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor Llywodraeth Cymru. Bydd y FfDC yn rhan o'r cynllun statudol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio a bydd yn helpu i benderfynu ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

1.3 Bydd y FfDC yn nodi lleoliadau strategol ar gyfer twf a seilwaith a thrwy gysylltu newid a buddsoddi, bydd yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i Gymru. Bydd y FfDC yn amlinellu dyfodol uchelgeisiol i Gymru ac yn darparu ar gyfer penderfyniadau ar bob lefel a fydd yn gallu helpu i ddarparu dyfodol gwell.

1.4 Rydym yn ymrwymedig i sicrhau y bydd y cyhoedd yn ymgysylltu'n helaeth â'r broses o baratoi'r FfDC. Mae'r Datganiad hwn ar Gyfranogiad y Cyhoedd yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys pobl yn ystod pob cam o ddatblygiad y FfDC, ac yn sicrhau bod pobl yn gwybod sut a phryd i ymgysylltu â'r broses o'i baratoi.

1.5 Mae pawb yn rhanddeiliaid yn y FfDC, o ystyried ei bwysigrwydd o ran darparu fframwaith ar gyfer datblygiadau newydd ledled Cymru gyfan. Rydym yn croesawu ac yn annog sylwadau gan bawb, ac mae gan bob grŵp, sefydliad, busnes ac unigolyn gyfraniad i'w wneud o ran datblygu'r cynllun defnydd tir cenedlaethol.

## Diwygiadau

1.6 Diwygiwyd Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2017 i ddiweddaru amserlen y FfDC. Fe'i diwygiwyd eto ym mis Gorffennaf 2019. Mae'r adroddiad hwn yn egluro cefndir ail ddiwygiad y Datganiad. Newidiodd dyddiad ar gyfer ymgynghori ar ddrafft y FfDC yng Ngham 8 o Gorfennaf 2019 i Awst 2019 er mwyn osgoi agor yr ymgynghoriad yn ystod cyfnod cyn-etholiad yr is-etholiad ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed ar 1af Awst

# 2 Y Broses Baratoi

2.1 Mae'r amserlen ganlynol yn nodi'r camau a'r amserlenni ar gyfer paratoi'r FfDC ac yn dangos pryd y cynhelir yr ymgynghoriad ar y FfDC:

| | | |
|---|---|---|
| Cam 1 | Paratoi'r Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd | Ionawr 2016 |
| Cam 2 | Cyhoeddi ac ymgynghori ar y Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd (12 wythnos) | Chwefror – Ebrill 2016 |
| Cam 3 | Ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd a pharatoi adroddiad ymgynghori | Mai – Medi 2016 |
| Cam 4 | Casglu tystiolaeth, datblygu'r weledigaeth, yr amcanion a'r opsiynau<br>Ymgysylltu<br>Cais am Dystiolaeth a Phrosiectau | Hydref 2016<br>– Mawrth 2018 |
| Cam 5 | Cyhoeddi ac ymgynghori ar y prif faterion, opsiynau a'r opsiwn a ffefrir, gyda chefnogaeth adroddiadau ac asesiadau amgylcheddol (12 wythnos) | Ebrill - Gorffennaf 2018 |
| Cam 6 | Ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ar y prif faterion, yr opsiynau a'r opsiwn a ffefrir a pharatoi adroddiad ymgynghori | Gorffennaf - Hydref 2018 |
| Cam 7 | Paratoi FfDC drafft<br>Ymgysylltu | Hydref 2018<br>– Mehefin 2019 |
| Cam 8 | Ymgynghori ar y FfDC drafft (12 wythnos) | Awst – Tachwedd 2019 |
| Cam 9 | Ystyried ymatebion i'r FfDC drafft a pharatoi adroddiad ymgynghori | Tachwedd 2019 – Mawrth 2020 |
| Cam 10 | Y Cynulliad yn ystyried y FfDC drafft (60 diwrnod 'eistedd') | Ebrill – Mehefin 2020 |
| Cam 11 | Cyhoeddi'r FfDC | Medi 2020 |

2.2 Mae'r amserlen baratoi yn sefydlu proses o ryw 4 blynedd ar gyfer mabwysiadu'r fframwaith. Mae'n cynnwys tri cham 12 wythnos penodol o ymgynghori â'r cyhoedd yng nghamau 2, 5 ac 8.

2.3 Mae'r amserlen yn dangos ymrwymiad y Llywodraeth i baratoi'r FfDC a bydd yn rhoi digon o amser ar gyfer ymgysylltu ynghyd â thrafodaethau ystyrlon. Ni ragwelir y bydd yr amserlen yn newid nac y bydd angen ymgyngoriadau ychwanegol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu'r sefyllfa ac yn cyhoeddi fersiwn wedi'i diweddaru o'r ddogfen hon os bydd angen.

2.4 Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd gwybodaeth am ddatblygiad y FfDC ar gael yn ystod holl gamau'r broses a bydd swyddogion ar gael i ddarparu cyngor a chefnogaeth.

# 3 Cyfranogi

3.1 Wrth ddatblygu'r Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried sut y gall sicrhau:

- y gall pobl gyfrannu at ddatblygiad y rhaglen gyfranogi;
- bod yr ymgysylltu yn gynhwysol, yn agored ac yn dryloyw a bod pobl yn cael cyfle i gymryd rhan drwy gydol y broses;
- mabwysiadu dull cydweithredol o weithio;
- bod gwybodaeth ar gael yn hwylus; a
- bod adborth ar gael ar y sylwadau a gaiff eu gwneud gydol y broses.

3.2 Bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd tri cham allweddol i gynnwys aelodau'r cyhoedd wrth baratoi'r FfDC, sef:

- **Gwybodaeth a Chefnogaeth** – sicrhau bod gwybodaeth ar gael am y FfDC drwy gydol y broses a bod cymorth ar gael i helpu pobl i gymryd rhan.
- **Camau Ymgynghori Allweddol** – codi ymwybyddiaeth o ymgyngoriadau a chynnig cyfleoedd i gyflwyno sylwadau.
- **Cynllun Ymgysylltu** – darparu cofnod tryloyw am ddigwyddiadau a fydd wedi'u cynnal a digwyddiadau sydd i ddod er mwyn sicrhau bod ymgysylltu wrth baratoi'r FfDC.

## Gwybodaeth a Chefnogaeth

3.3 Wrth baratoi'r FfDC, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i gael gafael ar wybodaeth am y FfDC newydd; yn cael gwybod am y cynnydd sy'n cael ei wneud; ac yn gallu cysylltu â swyddogion i ddysgu mwy am y broses. Bydd yn gwneud y canlynol:

Gwefan
- Mynediad i'r holl ddogfennau allweddol ar wefan Llywodraeth Cymru
- Esboniad o'r broses a'r amserlenni

Erthyglau a'r Wasg
Erthyglau a datganiadau i'r wasg i godi proffil ac ysgogi ymgysylltu a thrafodaeth

Llinell gymorth ac E-bost
Bydd yr Is-adran Gynllunio yn cynnig cymorth â phob agwedd ar broses y FfDC, gan gynnwys sut i gyflwyno sylwadau ac ymholiadau cyffredinol

Cylchlythyr
Cyhoeddi cylchlythyr rheolaidd i gofnodi cynnydd ac i roi gwybod am y camau sydd i ddod

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Defnyddio'r cyfrif Twitter Gweinidogol a sianeli'r rhanddeiliaid i ledaenu gwybodaeth, i roi cyhoeddusrwydd i'r camau allweddol ac i anfon negeseuon atgoffa

Cronfa ddata ymgynghori
Sefydlu cronfa ddata ymgynghori ar gyfer y FfDC a fydd ar gael i bawb ac a fydd yn cael ei defnyddio i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bartïon am y gwaith o baratoi'r FfDC

## Prif Gamau'r Ymgynghori

3.4 Yn ystod camau 2, 5 ac 8, cynhelir ymarferion ymgynghori dros ddeuddeg wythnos. Mae'r rhain yn gerrig milltir allweddol yn y broses o greu'r FfDC, pan gaiff y dogfennau eu cyhoeddi ac y cawn eich barn arnynt. Y prif ffocws yn ystod y camau hyn yw rhoi cyhoeddusrwydd eang i'r ymgynghoriad, sicrhau bod y dogfennau a'r dystiolaeth y maent yn seiliedig arnynt ar gael ac annog pobl i'w hadolygu a chynnig sylwadau arnynt. Bydd y camau hyn yn hollbwysig o ran llunio'r FfDC ac mae'n bwysig bod pobl yn achub ar y cyfle i ystyried yr hyn sy'n cael ei gynnig ac i roi eu sylwadau.

3.5 Yn ogystal â'r gweithgareddau uchod, bydd Llywodraeth Cymru yn ystod y camau allweddol hyn yn cynnig nifer o ffyrdd amrywiol i'ch galluogi i roi eich barn ar y FfDC. Rydym yn bwriadu canfasio'r diddordeb a'r galw ymysg rhanddeiliaid yn uniongyrchol a chynnig amrywiaeth o ffyrdd o gyfrannu yn ystod y camau ymgynghori, gan gynnwys yr hyn a ganlyn:-

### Cyhoeddi dogfennau allweddol a thystiolaeth ategol

Bydd yr holl ddogfennau allweddol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gwybodaeth am sut i gyflwyno sylwadau

Darperir fersiynau hygyrch o ddogfennau allweddol

### Cyfarfodydd Uniongyrchol a Digwyddiadau

- Defnyddir cyfarfodydd un i un a/neu gyfarfodydd grŵp i roi cyhoeddusrwydd i ymgyngoriadau cyhoeddus ac i annog pobl i ymgysylltu
- Mynychu digwyddiadau cyhoeddus fel yr Eisteddfod
- Cynnig ffyrdd anffurfiol ledled Cymru i bobl drafod y FfDC gyda swyddogion Llywodraeth Cymru

### Codi Ymwybyddiaeth

- Hysbysebion yn y wasg
- Hysbysebion ar y we
- Y Cyfryngau Cymdeithasol
- Straeon yn y cyfryngau arbenigol
- Animeiddiadau

3.6 Bydd cam 3 hefyd yn cynnwys 12 wythnos o ymgynghori â'r cyhoedd. Bydd yr ymgynghoriad cychwynnol hwn yn canolbwyntio ar y broses ar gyfer paratoi'r FfDC a sut y bwriedir ymgysylltu â'r cyhoedd. Ni fydd yn canolbwyntio ar faterion cynllunio ac ni fydd yn gofyn am yr un lefel o weithgareddau ymgynghori ag ar gyfer camau 5 ac 8. Y ffocws yn ystod y cam hwn fydd cyfathrebu electronig a chyhoeddi dogfennau ar y wefan.

## Y Cynllun Ymgysylltu

3.7 Mae'n bwysig pobl yn cael cyfle i gymryd rhan wrth i brif ddogfennau 'r FfDC gael eu paratoi, a chyn iddynt gael eu cyhoeddi at ddibenion ymgynghorI. Mae ymgysylltu effeithiol yn golygu y bydd pobl wedi cael y cyfle i lunio'r FfDC newydd cyn y camau ymgynghori, gan gynnwys darparu'r dystiolaeth y maent yn teimlo y dylai gael ei hystyried drwy gydol y broses.


3.8 Bydd Cam 4 yn cynnwys casglu tystiolaeth ac ymgysylltu i sicrhau bod cyflei i lywio'r broses o baratoi dogfen y Prif Faterion, yr Opsiynau a'r Opsiwn a Ffefrir. Hefyd, bydd rhagor o ymgysylltu yn ystod cam 7 i lywio'r broses o baratoi'r FfDC drafft y byddwn yn ymgynghori yn ei gylch yn ystod cam 8.

3.9 Bydd Llywodraeth Cymru yn paratoi Cynllun Ymgysylltu. Bydd y Cynllun Ymgysylltu yn datblygu'r egwyddorion a nodir yma ac yn amlinellu rhaglen fanwl o ymgysylltu. Bydd yn gofnod o gyfarfodydd a digwyddiadau a fydd wedi'u cynnal wrth baratoi'r ar gyfer y FfDC a bydd yn cynnwys rhaglen o ddigwyddiadau ar gyfer y dyfodol. Bydd y Cynllun Ymgysylltu'n ddogfen ddynamig a byw a fydd yn newid wrth i'r broses fynd yn ei blaen, ac a fydd yn dangos yr hyn a fydd wedi ac yn digwydd yn y dyfodol. Gellir gweld y Cynllun Ymgysylltu yma ar wefan Llywodraeth Cymru a bydd yn gofnod tryloyw o'r ymgysylltu drwy gydol y broses o baratoi'r FfDC.

# 4 Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

4.1 Mae cynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer y FfDC yn orfodol dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015) ac rhaid ymgorffori ystyriaeth i'r effeithiau ar ddefnydd o'r iaith Gymraeg. Mae angen cynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol er mwyn asesu effaith cynllun ar ei gyfraniad tuag at wireddi datblygu cynaliadwy a sicrhau ei fod wedi ei integreiddio'n llawn yn y broses o baratoi cynllun.

4.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu integreiddio asesiadau eraill ag Arfarniadau o Gynaliadwyedd/Asesiadau Amgylcheddol Strategol, a bydd yn cynnal Arfarniad Integredig o Gynaliadwyedd. Un o'r ffyrdd allweddol o weithio sy'n rhan o'r egwyddor datblygu cynaliadwy yw'r angen i weithio mewn ffordd integredig ym mhopeth a wnawn. O ystyried natur a chwmpas y FfDC, rydym wedi ceisio integreiddio Arfarniadau o Gynaliadwyedd ac Asesiadau Amgylcheddol Strategol ag asesiadau statudol ac anstatudol eraill. Mae hynny'n rhoi golwg mwy cyflawn inni ar y goblygiadau o ran cynaliadwyedd ac ar y cyfleoedd sy'n codi o'r FfDC. Gan y bydd yr Asesiad o Gynaliadwyedd bellach yn un integredig, bydd yr asesiadau effaith ychwanegol a ganlyn hefyd yn cael eu hintegreiddio â'r Asesiad Integredig o Gynaliadwyedd:



4.3 Mae integreiddio'r asesiadau eraill hyn yn sicrhau y bydd modd mynd ati mewn ffordd gyson a thryloyw i gydweithio ar faterion gwahanol, ac i rannu gwybodaeth a nodi cysylltiadau rhwng pynciau. Mae hon yn ffordd gadarn a thrwyadl o nodi problemau a chyfleoedd, o asesu effeithiau, gan gynnwys effeithiau cronnol ac uniongyrchol, ac o wneud gwaith monitro mewn ffordd holistaidd.

4.4 Bydd yr Arfarniad Integredig yn sicrhau bod polisïau a chynigion wedi eu llunio gan wybodaeth berthnasol ac yn rhoi cyfle i bobl gyfrannu. Bydd ymngynghori cyhoeddus yn rhan allweddol o'r broses.

## Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

4.5 O dan un o Gyfarwyddebau'r UE, rhaid cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) ar gyfer y FfDC. Bydd yr ARhC yn asesu a yw'r cynllun yn debygol o gael effaith sylweddol ar safle cadwraeth natur Ewropeaidd ym Mhrydain Fawr neu ar safle cadwraeth natur morol Ewropeaidd. Mae'n rhaid sgrinio'r opsiynau a'u hasesu'n briodol o dan y broses hon. Dim ond os gwelir na fydd y FfDC yn cael unrhyw effeithiau andwyol ar gyflwr y safleoedd dynodedig y ceir mabwysiadu'r FfDC. Os yw effaith o'r fath yn bosibl, dylai'r FfDC gael ei ddiwygio i osgoi effeithiau o'r fath. Dim ond o dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol y ceir mabwysiadu cynllun sy'n debygol o gael y fath effaith. Bydd canfyddiadau'r gwaith hwn yn dod yn rhan o'r ACI ar gyfer y FfDC.

### Amserlen

4.6 Bydd yr ACI a'r ARhC yn cael eu cynnal ochr yn ochr â'r gwaith o ddatblygu'r FfDC. Mae'r tabl isod yn dangos y prif gamau ochr yn ochr â chamau 2 i 9 o'r FfDC (gweler tabl 2.1 ar gyfer camau'r FfDC). Er na ddisgwylir y bydd angen diweddaru Adroddiad Amgylcheddol yr ACI yn ystod y camau olaf, os gwneir newidiadau sylweddol i'r FfDC, bydd cyfnod ymgynghori arall yn cael ei gynnal.

| Cam y FfDC | Camau'r ACI a'r ARhC | Amcangyfrif o'r amserlen |
|---|---|---|
| 2 | Gosod y cyd-destun a'r amcanion, gan sefydlu llinell sylfaen a phenderfynu ar y cwmpas | Rhagfyr 2016 - Ebrill 2017 |
| 3 | Ymgynghori ar Adroddiad Cwmpasu'r ACI | Ebrill 2017 – Gorff 2017 |
| 4 | Ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a pharatoi adroddiad ymgynghori<br><br>Cyhoeddi Adroddiad Cwmpasu'r ACI<br><br>Datblygu a mireinio dulliau amgen ac asesu effeithiau<br><br>Paratoi'r adroddiad ACI dros dro a'r adroddiad ARhC rhagarweiniol | Gorff 2017 - Mawrth 2018 |
| 5 | Cyhoeddi ac ymgynghori ar yr adroddiad ACI dros dro a'r adroddiad ARhC rhagarweiniol ochr yn ochr â'r materion, yr opsiynau a'r opsiwn a ffefrir ar gyfer y FfDC | Ebrill- Mehefin 2018 |
| 6 | Ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a pharatoi adroddiad ymgynghori | Gorff – Awst 2018 |
| 7 | Paratoi Adroddiad Amgylcheddol yr ACI ac Adroddiad Sgrinio yr ARhC ac Asesiad Priodol os bydd angen | Hydref 2018 – Mehefin 2019 |
| 8 | Ymgynghori ar Adroddiad Amgylcheddol yr ACI ac Adroddiad Sgrinio yr ARhC ac Asesiad Priodol os bydd angen | Awst - Tachwedd 2019 |
| 9 | Ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad | Tachwedd 2019 - Mawrth 2020 |
| 10 | Y Cynulliad yn ystyried yr FfDC drafft (60 o ddyddiau 'eistedd') | Ebrill – Mehefin 2020 |
| 11 | Cyhoeddi'r FfDC, y Datganiad Cyn Mabwysiadu a Datganiad o'r Manylion<br>Gweithredu, monitro ac adolygu | Medi 2020 ymlaen |

## Manylion Cyswllt

Cyfeiriad
Y Gangen Polisi Cynllunio, Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost
ffdc@llyw.cymru

Ffôn
0300 025 3261 / 0300 025 3744

Gwefan
www.llyw.cymru/ffdc